| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **8 CHWEFROR 2018** |
| TEITL: | **CYLLIDEB 2018/19 A<br>STRATEGAETH ARIANNOL 2018/19 – 2020/21** |
| PWRPAS: | **Cyflwyno'r gyllideb y bwriedir ei argymell gan y Cabinet i'r Cyngor i'w graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** |
| GWEITHREDIAD: | **Craffu'r wybodaeth, gan gynnwys y cynllun ariannol tymor-canol, cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2018/19 i'r Cyngor llawn** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad amgaeedig ac yn dod i gasgliad ynglŷn â'r gyllideb i'w gynnig i'r Cyngor, fydd yn cynnwys argymhelliad ynglŷn â'r cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2018/19.

**2.** Gan dderbyn ei fod yn ymarfer da i osod y gyllideb yng nghyd–destun y sefyllfa ar gyfer y tymor hirach, bwriedir hefyd ymgynghori gyda'r Cyngor ynglŷn â'r strategaeth ariannol ar gyfer y cyfnod 2018/19 – 2020/21.

**3.** Bydd y Cabinet yn rhoddi ystyriaeth i'r adroddiad yn fuan ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac wedi'r craffu yma, byddwn yn hysbysu'r Cabinet o gasgliadau'r Pwyllgor.

**4.** Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol, wedyn cyflwyno sylwadau i'r Cabinet ar yr opsiynau.